



Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol

2022-2023

Drafft Dim Statws

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English.

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2022 - 2023

Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth gwych i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac mae'n ymdrechu flwyddyn ar ôl blwyddyn i wella'r gwasanaeth hwnnw.

Yn ystod 2015, cawsom [Hysbysiad Cydymffurfio](#) cyfreithiol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi pa Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor.

Er mwyn cyflawni'r 174 o safonau yn yr hysbysiad, datblygodd y Cyngor [Gynllun Gweithredu](#) sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn monitro cynnydd yn rheolaidd ac wedi cynnwys crynodeb yn yr adroddiad hwn.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi Strategaeth Hybu 5 mlynedd ar gyfer 2022-27 fel rhan o'r broses gydymffurfio. Mae hon ar gael ar ein [gwefan](#). Mae manylion y cynnydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Prif gyflawniadau 2022 - 2023

Gwefan

Mae golygydd y wefan yn atgoffa am gyfieithiad Cymraeg cyn y gellir diweddarau tudalennau Saesneg, gan sicrhau bod y wefan yn gwbl ddwyieithog. Mae system hefyd wedi'i llunio sy'n cynhyrchu adroddiadau ac yn nodi tudalennau lle nad yw'r cynnwys Cymraeg a Saesneg yn cyfateb.

Mae adolygiad o dudalennau gwe hanesyddol ar y gweill gan dîm golygydd y we i sicrhau bod pob tudalen, dewislen a ffurflen yn gwbl weithredol ac wedi eu cyfieithu'n gywir.

Internal communications

Yn ogystal â Staffnet ar gyfrifiaduron corfforaethol, mae Staffnet+ ar gael i staff ar ddyfeisiau personol gan ganiatáu mynediad at wybodaeth am eitemau newyddion mewnol, slipiau cyflog, swyddi gwag mewnol, a rhai polisïau. Mae hwn wedi cael ei ddefnyddio'n dda ac mae hefyd ar gael yn ddwyieithog.

Mae'r Prif Weithredwr yn anfon neges wythnosol a chrynodeb o newyddion i'r holl staff ar ddiwedd pob wythnos. Anfonir hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn anfon e-byst rheolaidd at holl staff Bro Morgannwg gyda rhybuddion a newyddion. Mae'r rhain yn cael eu hanfon yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol

Mae prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, yn ogystal a chyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram eraill, yn cael eu gweithredu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Canolfan Gyswilt a Phrif Dderbynfeydd

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig opsiwn i bob galwr wneud ei ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfanswm nifer y galwyr i'r ganolfan alwadau a ddefnyddiodd yr opsiwn hwn yn ystod 2022/23 oedd 1749, sy'n gynnydd oddi ar 2021/22 (1074). Mae

galwadau Cymraeg yn ystod 2022/23 yn cynrychioli tua 1% o gyfanswm y galwadau a wnaed (171,986).

Yn anffodus, mae nifer y staff dwyieithog yn y ganolfan gyswllt wedi gostwng 70% i un aelod staff erbyn diwedd 2022/23. Mae recriwtio a chadw staff dwyieithog wedi bod yn anodd, ac rydym yn archwilio llwybrau recriwtio a chyfleoedd newydd fel rhannu staff ag awdurdodau eraill. Mae recriwtio staff dwyieithog yn flaenoriaeth ar gyfer 2023/24.

Er gwaethaf problemau staffio, gostyngodd amseroedd aros ar gyfer pob galwad yn ystod y cyfnod hwn. Ar gyfartaledd, arhosodd galwyr a oedd yn defnyddio'r opsiwn iaith Gymraeg yn 2022/23 am 257 eiliad, gostyngiad o'r 304 eiliad yn 2021/22. Mae hyn o'i gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 327 eiliad ar draws y ganolfan alwadau, sydd hefyd wedi gostwng o 334 eiliad yn 2021/22.

Mae gwasanaethau wyneb-yn-wyneb wedi ailddechrau'n llawn ac mae'r brif dderbynfa'n cael ei staffio'n ddyddiol gan gynrychiolwyr gwasanaethau cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg.

Dysgwyr Cymraeg

Dechreuodd y Cydlynnydd Iaith Gwaith newydd ym mis Medi 2022. Mae cyrsiau Cymraeg ar bob lefel yn cael eu cynnig yn ystod amser gwaith ac heb i staff orfod talu. Cynhelir dosbarthiadau o bell ac maent yn cynnwys aelodau o'r gymuned.

Ym mis Mawrth 2023, mae 59 o ddysgwyr wedi'u cofrestru gyda'r Cydlynnydd Iaith Gwaith, sy'n gynnydd o 9 ers 2021/22.

Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/2022 a ddaeth i ben ym mis Awst 2022, cwblhaodd cyfanswm o 354 o ddysgwyr brif gwrs gyda Dysgu Cymraeg y Fro yng Nghanolfan Palmerston. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys staff Bro Morgannwg, wrth i

rai staff ddysgu ochr yn ochr â thrigolion ac aelodau'r gymuned tan fis Awst 2022. Ym mis Medi 2022, dychwelodd 69% o ddysgwyr ar lefel uwch nag yn 2021/2022

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau i gynnig cyrsiau laith Gwaith am ddim i'r holl staff ar-lein drwy eu gwefan, gan gynnwys cyrsiau ar gyfer sectorau penodol fel iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon a hamdden, a thwristiaeth.

laith Gwaith

Dechreuodd y cynllun laith Gwaith o fis Medi 2022 gyda'n Cydlynnydd laith Gwaith newydd. Cynigiwyd cyfres o sesiynau blasu cyn i gyrsiau ffurfiol ddechrau.

Cyn Medi 2022, roedd 41 o ddysgwyr o Gyngor Bro Morgannwg yn dysgu Cymraeg yn y gymuned ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2021/22. O'r rhain, cofrestrodd 16 ar gyrsiau laith Gwaith a symud ymlaen i'r lefel nesaf: 8 i Sylfaen, 6 i Uwch, a 2 i Hyfedredd.

Dewisodd y dysgwyr eraill aros gyda'u dosbarthiadau yn y gymuned. Ers mis Medi, mae un aelod o staff wedi gadael yr awdurdod ac mae dau wedi dychwelyd i ddosbarthiadau cymunedol arafach eu dysgu. O fis Medi 2022, bu tri dosbarth mynediad newydd ar gyfer lefel Mynediad / Entry: dechreuodd 17 ym mis Medi, dechreuodd 8 ym mis Tachwedd, a dechreuodd 27 ym mis Ionawr.

Mae'r Cydlynnydd laith Gwaith a Swyddog y Gymraeg wedi cydweithio i greu tudalen Staffnet penodol i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg, Yr Hwb. Mae hwn yn darparu gwybodaeth, dolenni i gyrsiau, newyddion gan Dysgu Cymraeg y Fro, a manylion digwyddiadau cymdeithasol. Mae'r digwyddiadau eleni wedi cynnwys cwis Zoom a nosweithiau cyri.

Creodd y Cydlynnydd laith Gwaith ffilm fer yn cynnwys dysgwyr yn siarad am ddysgu Cymraeg. Chwaraewyd y ffilm yng nerbynfa'r Swyddfeydd Dinesig ar Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg ac fe'i rhannwyd hefyd ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Mae hyn wedi cefnogi llawer o waith hyrwyddo arall i annog staff i ddysgu Cymraeg.

Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle

Yn unol â gofynion ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, gwnaethom ddiwygio a diweddarau Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle.

Swyddog y Gymraeg

Cafodd y Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg ei recriwtio ym mis Mai 2022. Mae gan y Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg gyfrifoldebau dros gyfathrebu a chydlynu ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y dyfodol o fewn yr awdurdod.

Hyfforddiant y Gymraeg

Rydym wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i aelodau etholedig. Mae hyn yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg a wnawn ac yn egluro Safonau'r Gymraeg. Roedd y sesiynau'n orfodol ac yn cael eu cyflwyno fel rhan o hyfforddiant cydraddoldeb.

Ym mis Chwefror 2023, fe wnaethom ddarparu trosolwg a diweddariad o waith a gweithgareddau Cymraeg ar gyfer y Grŵp Mewnwelediad Strategol, ac eto ym mis Mawrth 2023 ar gyfer y grŵp Penaethiaid Gwasanaeth. Mae cynlluniau i gyflwyno'r sesiwn ar gyfer undebau llafur a'r Fforwm Newid.

Mae'r Cyngor wedi ailgychwyn sesiynau sefydlu personol o'r enw 'Croeso i'r Fro' yn gynnar yn 2023. Mae'r rhaglen sefydlu hefyd ar gael ar iDev felly y gellir mynd ati'n ddiweddarach neu ei defnyddio gan staff presennol. Mae rhan o'r sefydlu yn cyfeirio at y Gymraeg, fel y dangosir yn y sgrinlun hwn o'r cwrs iDev:

Welsh Language

[Work Welsh: Yr Hwb](#)

The Vale of Glamorgan Council strongly encourages staff to learn Welsh – there are so many benefits for you, for the organisation, for our customers, and for our community.

Work Welsh is not just for learners but also for Welsh speakers who want to improve their language skills and gain confidence to use their Welsh more in the workplace.

Courses are free of charge to staff and will take place in work time – you will not have to use your leave or own time to attend the courses. Please however check with your manager before signing up.

Modiwl ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein drwy iDev wedi cael ei hyrwyddo yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2023 fel rhan o'n dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Byddwn yn defnyddio modiwl a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd yn llwyddiannus gan Gyngor Caerdydd, sydd wedi'i addasu ar gyfer y Fro.

Bydd y modiwl yn mynd yn fyw ar gyfer pob aelod staff yn 2023.

Cytundeb gyda Menter Bro Morgannwg

Mae'r Cyngor yn rhoi cyllid i Fenter Bro Morgannwg gynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg fwynhau gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal ag ategu gweithgareddau cyn ysgol ac ar ôl ysgol i bobl ifanc. Mae hyn wedi cynnwys cysylltu â thimau ieuenctid, addysg oedolion ac ysgolion. Mae rhai gweithgareddau a gweithdai yn dal i gael eu cynnal ar-lein. Cafodd y cytundeb gyda Menter Bro Morgannwg ei adnewyddu yn 2022 ac roedd yn cynnwys cyllid ychwanegol i dreialu gweithgareddau newydd.

Mae Menter Bro Morgannwg yn defnyddio llwyfannau digidol amrywiol i rannu, hyrwyddo ac annog trigolion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau Cymraeg yn y Fro. Maent yn darparu gwybodaeth ddyddiol/wythnosol am

weithgareddau'r sefydliad. Maent hefyd yn defnyddio eu platfform digidol i hysbysebu digwyddiadau a phrosiectau gan sefydliadau partner gan gynnwys yr Urdd a Dysgu Cymraeg y Fro.

Uchafbwynt y flwyddyn i Fenter Bro Morgannwg oedd Gŵyl Fach y Fro, hynod lwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Mai 2022. Roedd dros 8,000 o bobl, y nifer fwyaf erioed, wedi mwynhau perfformiadau gan berfformwyr cerddorol Cymraeg sylweddol a chan ysgolion yn y Fro, yn ogystal â gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau plant, a stondinau masnachwyr crefft. Cynhaliwyd dwy Gig Fach y Fro poblogaidd yn 2022 gyda dros 300 o bobl yn mynychu Ystafelloedd Paget, Penarth ar gyfer gig gan gynnwys Dafydd Iwan, a dros 200 o bobl yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Memo yn Y Barri. Gwelwyd niferoedd da hefyd yn mynychu noson gomedi gyda'r seren deledu Tudur Owen a gynhaliwyd yn y Memo ym mis Tachwedd 2022.

Mae digwyddiadau a gweithgareddau eraill i oedolion yn cynnwys sgyrisiau ar-lein misol, teithiau cerdded, gweithgareddau lles, a dosbarthiadau addysg oedolion. Daeth dros 1850 o oedolion i ddigwyddiadau a gweithgareddau, gan gynnwys y gigs a'r noson gomedi.

Mae Menter yn darparu llu o weithgareddau i bobl ifanc yn eu harddegau a phobl ifanc, gan gynnwys staffio a helpu i ariannu clwb ieuenctid Cymraeg yn y Barri. Roedd cyllid ychwanegol drwy Haf o Hwyl a thaliad untro gan y rhiant-sefydliad, Mentrau Iaith, yn canolbwyntio ar weithgareddau ar gyfer y grŵp oedran hwn gan gynnwys gweithdai radio, sesiynau cerdd, a phadlfyrddio. Mae gweithgareddau eraill gydol y flwyddyn yn cynnwys gweithdai graffiti, sesiynau crefft, teithiau, gigiau a dosbarthiadau chwaraeon. Helpodd Menter hefyd i ddarparu ffair yrfaeodded ym mis Ionawr 2023 yn Ysgol Bro Morgannwg, yn ogystal â darparu gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli.

Darperir llawer o weithgareddau a gwasanaethau ar gyfer plant y Fro, gan gynnwys pêl-droed wythnosol, pêl-rwyd, karate, dawns a chlybiau drama yn ogystal â sesiynau coginio a chrefft. Roedd darpariaeth Haf o Hwyl yn cynnwys gweithdai graffiti a radio, yn ogystal â sesiynau marchogaeth ceffylau. Darperir cynllun chwarae mynediad agored Bwrlwm yn ystod holl gyfnodau gwyliau'r ysgol mewn

pedwar lleoliad ar draws y Fro: Y Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth. Yn ystod y cyfnod 2022/23, mynychodd dros 2,100 o blant.

Mae Menter hefyd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau a dosbarthiadau i fabanod, plant cyn oed ysgol, a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys dosbarthiadau synhwyraidd i fabanod, dosbarthiadau tylino babanod, a sesiynau Buggy Fitness i rieni. Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd yw'r sesiynau adrodd straeon wythnosol a gynhelir mewn llyfrgelloedd ledled y Fro. Mae pedwar sesiwn Amser Stori bob wythnos yn cael eu mynychu gan dros 2680 o fabanod, rhieni a gwarcheidwaid. Cynhaliwyd diwrnodau hwyl i'r teulu adeg y Pasg, yn ystod gwyliau'r haf, ac adeg y Nadolig.

Dysgu Cymraeg y Fro

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn gweithio mewn partneriaeth â Menter Bro Morgannwg ac yn cefnogi'r tîm Dysgu Oedolion yn y Gymuned i ddarparu addysg Gymraeg i oedolion. Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn cefnogi siaradwyr Cymraeg a dysgwyr sy'n dod at ei gilydd mewn boreau coffi anffurfiol drwy sawl Caffi Cymraeg ar draws y Fro mewn lleoliadau gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol.

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn hysbysebu ac yn hyrwyddo digwyddiadau amrywiol ar ei galendr sy'n cael ei gyhoeddi fel copi caled ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd a'i ddiweddarau'n wythnosol fel rhifyn digidol ar ei wefan. Mae digwyddiadau hefyd yn cael eu rhannu gyda dysgwyr yn eu gwersi wythnosol.

O fis Medi 2022, roedd cyrsiau Cymraeg ar gael am ddim i ddysgwyr dan 25 oed. Hysbysebwyd rhai cyrsiau ar wahân yn benodol ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. Yn anffodus roedd hi'n anodd recriwtio dysgwyr dros yr haf ac mae nifer yn methu mynychu'r gwersi ym mis Medi. Gall hyn fod o ganlyniad i ddechrau cyrsiau neu swyddi newydd ar ôl gwyliau'r haf. Wrth symud ymlaen, penderfynwyd parhau i gynnig cyrsiau am ddim ond integreiddio â dysgwyr o bob oed.

Dydy Dysgu Cymraeg y Fro ddim yn gallu derbyn plant dan 16 oed yn y brif raglen addysgu. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o ddigwyddiadau gydol y flwyddyn i groesawu'r teulu i ddysgu gyda'i gilydd fel y Dathliad Nadolig.

Cytundeb cyfieithu gyda Chyngor Caerdydd

Llofnododd y Cyngor gontract yn 2017 gyda Chyngor Caerdydd ar gyfer yr holl waith cyfieithu Cymraeg yn dilyn cyfnod llwyddiannus ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Adnewyddwyd y contract ym mis Medi 2021 am dair blynedd arall.

Yn ystod 2022/23, cyfieithwyd 3721 o ddogfennau ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg. Cyfieithwyd cyfanswm o 2,939,599 o eiriau rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, sy'n gynydd o 8% ar y flwyddyn flaenorol, sy'n dangos faint o waith sy'n cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog.

Cyfanswm cost cyfieithu Cymraeg ar gyfer 2022/23 oedd £288,197.23.

Asesiad Sgiliau Ieithyddol

Cymerwyd camau cynllunio cyntaf asesiad sgiliau ieithyddol ar draws y Cyngor yn gynnar yn 2023. Mae cyflwyno'r Oracle Fusion newydd wedi golygu y bydd yr arolwg sgiliau'n cael ei ohirio tan yn ddiweddarach yn 2023.

Bydd hyn yn diweddarau'r darlun o ran nifer y siaradwyr Cymraeg a lefel hyfedredd y Gymraeg ymhlith staff ym mhob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys staff ysgolion. Bydd y cydlynnydd iaith Gwaith yn cynorthwyo gyda hyn.

Gwiriwr sillafu a throedynnau e-bost Cymraeg

Mae holl staff y Cyngor wedi derbyn copi o 'Cysgeir' ar eu cyfrifiaduron. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r feddalwedd hon wedi'i osod ar holl gyfrifiaduron y cyngor sy'n galluogi staff i gyfathrebu'n haws yn Gymraeg ac i deimlo'n hyderus am eu gramadeg. Cafodd hyn ei hyrwyddo eto yn ystod Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.

Rydym wedi trefnu i holl staff y cyngor gael troedyn dwyieithog gyda'u teitlau swydd a chael negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog. Ychwanegwyd logo amlwg hefyd at enwau'r rhai hynny sy'n rhugl yn y Gymraeg a logo arall i nodi aelodau staff sy'n dysgu Cymraeg. Yn ogystal, mae staff a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu gwisgo cortyn gwddf neu fathodyn pin i nodi eu sgiliau pan fyddant yn y swyddfa.

Tudalen ar Staffnet i siaradwyr Cymraeg

Mae tudalen benodol ar ein Staffnet sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn ogystal â nodi eu hawliau o ran dogfennaeth a safonau mewnol. Mae staff hefyd yn cael eu cyfeirio at gyrsiau Cymraeg addas.

Sefydlwyd tudalen newydd ar Staffnet yn 2022 ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, o'r enw Yr Hwb. Mae'r dudalen hon yn cynnwys ffilm hyrwyddo a grëwyd gan Gydlynnydd Iaith Gwaith a dysgwyr Cymraeg ar gyfer Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022 yn ogystal â thystiolaeth gan uwch reolwyr sy'n dysgu Cymraeg. Mae gan y dudalen gysylltiadau â chyrsiau, digwyddiadau ac adnoddau defnyddiol. Mae adran hefyd ar gyfer newyddion iaith Gwaith a Dysgu Cymraeg y Fro, sy'n cael ei diweddarau'n wythnosol.

Crëwyd y dudalen gan Gydlynnydd Iaith Gwaith a Swyddog y Gymraeg i ddarparu canolbwynt penodol i staff Cymraeg eu hiaith a dysgwyr.

Mae'r dudalen i'w chael yma: iaith.gwaith.yr.hwb@bromorgannwg.gov.uk

Mwy na Geiriau

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu pum mlynedd Mwy na Geiriau yn 2022. Rydym wedi defnyddio hyn fel sail i'n cynllun gweithredu ein hunain. Mae hyn wedi cael ei ystyried a'i drafod gan gydweithwyr yn Cydraddoldeb ac yn Gwasanaethau Cymdeithasol.

Fel rhan o raglen ehangach Mwy na Geiriau, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymryd camau i wneud pob swydd newydd yn 'hanfodol Gymraeg'. Nid ydynt wedi gweld effaith negyddol ar nifer nac ystod yr ymgeiswyr am swyddi ac maent yn gallu recriwtio o gronfa ehangach. Maen nhw'n gofyn am Gymraeg lefel mynediad, sy'n caniatáu i recriwtiaid newydd ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg i wella eu sgiliau.

Strategaeth Hybu'r Gymraeg

O dan Safon 145 Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i ni ddatblygu strategaeth 5 mlynedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys manylion am y dyletswyddau statudol a chyfreithiol y mae'n rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gydymffurfio â hwy yn ogystal â chynllun gweithredu i ddangos y camau gweithredu sydd wedi'u datblygu a'u cytuno. Datblygwyd y camau gweithredu mewn ymgynghoriad ag amrywiol bartneriaid lleol a rhanbarthol, gan fod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y strategaeth.

Adnewyddwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg am y cyfnod 2022 i 2027 a gellir ei gweld [yma](#).

Mae'r strategaeth wedi'i hailstrwythuro i gyd-fynd â'r tair thema yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi sicrhau bod pob targed yn eistedd gyda 4 nod llesiant y Cyngor fel y dangosir yn y Cynllun Corfforaethol.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae'r CSCA wedi'i adnewyddu am gyfnod o ddeng mlynedd 2022-2032, gan adeiladu ar waith a chyflawniadau'r CSCA blaenorol. Ein gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg fydd cynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031/32. Mae'r targed hwn yn seiliedig ar gyfrannu at y targed hirdymor cyffredinol o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Y targed heriol o 24% yw pwynt canol yr amrediad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cydnabod yr angen am gydbwysedd gofalus rhwng bod yn uchelgeisiol a bod yn realistig.

Ffocws allweddol arall yw cynyddu capasiti addysg Gymraeg. Mae gwaith wedi'i wneud yn 2022/23 i adeiladu adeilad ysgol gynradd newydd 2-ddosbarth mynediad yn natblygiad newydd Glannau'r Barri. Bydd Ysgol Sant Baruc yn trosglwyddo i'r adeilad ysgol newydd ar ôl iddo gael ei gwblhau, gan ddarparu 210 o leoedd cynradd ychwanegol.

Mae'r CSCA yn cyd-fynd yn agos â'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i diweddarau felly rydym wedi gweithio i osgoi dyblygu camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg ac yn hytrach wedi cydweithio i gyfuno gweithredoedd tebyg.

Gallwch weld y CSCA [yma](#).

Grwp Deddf a Phencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol

Rydym yn aelod o Grŵp Deddf. Mae hwn yn grŵp cenedlaethol o swyddogion y Gymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhoi cyfle i rannu profiadau ac arfer da, a meithrin cysylltiadau ar draws y cynghorau hefyd.

Mae aelodau de-ddwyrain y grŵp wedi datblygu rôl 'Pencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol'. Mae'r Pencampwr yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gynnal gan Menter Iaith Caerffili, ac fe ddechreuodd ym mis Ebrill 2023. Bydd y Pencampwr yn gallu gwneud cais am ffrydiau ariannu gwahanol nag y gall awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Bydd cynghorau, gan gynnwys Bro Morgannwg, yn gallu gwneud cais am gymorth gan y Pencampwr yn ogystal ag elwa ar ei gilydd o adnoddau rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys fideos hyrwyddo ar gyfer addysg Gymraeg a data ar y ddarpariaeth Gymraeg bresennol.

Mae gan y grŵp wefan www.grwpdeddf.cymru sy'n rhoi manylion am y prosiectau, rôl y Pencampwr, a'r adnoddau sydd ar gael.

Dydd Gŵyl Dewi

Fe wnaethom ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn bersonol yn y Swyddfeydd Dinesig am y tro cyntaf ers 2020. Canodd plant o Ysgol Gynradd Tregatwg nifer o ganeuon Cymraeg yn y Dderbynfa ac Ystafell Cosmeston. Roedd coffi a chacennau cri wedi eu darparu i staff eu mwynhau wrth wrando ar y côr. Roedd ryseitiau ac awgrymiadau am ymadroddion Cymraeg dyddiol syml ar gael i staff fynd adre gyda nhw. Mae'r rhain hefyd ar gael ar dudalen Staffnet Yr Hwb.

Mynychwyd y digwyddiad bore gan staff o bob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys un cynghorydd ac un aelod o'r Uwch Dîm Arwain. Yn y prynhawn, darparodd y Cydlynnydd Iaith Gwaith a Swyddog y Gymraeg wybodaeth i staff am gyrsiau Cymraeg.

Gydol y dydd, fe wnaethom hefyd gyflwyno'r syniad o ddechrau a chloi pob cyfarfod yn Gymraeg, yn ogystal â defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml bob dydd. Bydd effaith hyn yn cael ei adolygu ym mis Rhagfyr 2023 ar gyfer Diwrnod Hawliau'r Gymraeg / Mae Gen i Hawl.

Ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu prosiectau a fframweithiau amrywiol i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion, sy'n cynnwys amcanion, canlyniadau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae'r fframwaith Siarter Iaith wedi cael ei weithredu. Mae dwy ysgol wedi cyrraedd safon Aur: Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Iolo Morgannwg. Mae pedair ysgol wedi cyrraedd safon Arian, mae gan un safon Efydd, ac mae Ysgol Gyfun Bro Morgannwg wedi dechrau'r broses.

Ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r fframwaith ychydig yn wahanol. P dan yr enw Cymraeg Campus, mae pob ysgol yn y Fro naill ai wedi dechrau'r broses neu wedi cyrraedd safon Efydd a/neu Arian. Mae dwy ysgol, Ysgol Gynradd Tregatwg ac Ysgol Gynradd Oakfield wedi derbyn safon Aur. Cynhaliwyd noson wobrwyo ym mis Mawrth 2023 i gydnabod ysgolion sydd wedi ennill gwobrau ers 2020.

Mae'r gydnabyddiaeth genedlaethol hon o hyrwyddo'r Gymraeg, cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a chefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru, yn gam cadarnhaol yn ein hymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Fro.

Bu ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg yn cymryd rhan ac yn fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd 2022. Cymerodd disgyblion o Ysgol Sant Baruc, Ysgol Pen-y-Garth, Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ran eleni gan gyrraedd safle uchel mewn amrywiaeth o gategoriâu. Cymerodd rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg y Fro ran yn rowndiau rhagbrofol Eisteddfod yr Urdd ym mis Mawrth 2023, gydag Ysgol Gynradd Tregatwg yn mynd drwodd i'r rownd derfynol ym mis Mai 2023.

Dathlodd ysgol Gymraeg ym Mro Morgannwg, Ysgol Gwaun y Nant, ei phen-blwydd yn 25 oed ym mis Mehefin 2022. Agorodd yr ysgol yn swyddogol ar ei safle presennol yn Gibbonsdown yn 2001 ac mae wedi tyfu o 26 i 250 o ddisgyblion.

Canolfan Drochi'r Gymraeg

Agorwyd Canolfan Drochi'r Gymraeg ym mis Chwefror 2022. Mae'r ganolfan yn darparu cefnogaeth i 65 o blant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn blant sydd wedi cael eu hadnabod gan athrawon fel disgyblion a allai elwa o gymorth ychwanegol i gynyddu dealltwriaeth a geirfa, ymarfer strwythurau brawddegau cyffredin, a magu hyder. Rhwng Medi 2022 a Mai 2023, croesawyd tri dysgwr arall Blwyddyn 2 yn y Ganolfan i dderbyn addysg drochi hwyr.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi cyfrannu tuag at nodau Cymraeg 2050 drwy annog teuluoedd y dysgwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n hyrwyddo a dathlu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Rydym wedi gweithio gyda phenaethiaid cyfrwng Cymraeg i ddatblygu gwasanaethau trochi ar gyfer disgyblion hŷn a fydd, gobeithio, yn dechrau ym mis Medi 2023.

Haf o Hwyl

Rhaglen llawn hwyl o weithgareddau chwarae, chwaraeon a diwylliannol am ddim oedd Haf o Hwyl, a gyflwynwyd rhwng Gorffennaf a Medi 2022. Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, nod y rhaglen oedd cefnogi lles meddyliol, cymdeithasol a chorfforol plant a phobl ifanc, gan gydnabod anawsterau'r ddwy flynedd flaenorol. Cynigiwyd bron i 150 o weithgareddau gwahanol mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau.

Darparwyd nifer o weithgareddau Cymraeg gan Fenter Bro Morgannwg, yr URDD, Clwb Carco, Llyfrgelloedd y Fro a Chanolfan Gelfyddydau'r Memo. Er bod nifer y

bobl a fanteisiodd ar y digwyddiadau Cymraeg yn gadarnhaol ar y cyfan, cafodd rhai o weithgareddau chwaraeon yr Urdd a oedd yn targedu merched eu canslo oherwydd niferoedd isel.

Mae adroddiad Haf o Hwyl yn cynnwys sylw gan gyfranogwr a oedd yn "gwerthfawrogi'n fawr y ffaith bod yna gyfleoedd Cymraeg".

Darllenwch yr adroddiad llawn ar wefan Cyngor Bro Morgannwg [yma](#).

Crynodeb o gynllun gweithredu Safonau'r Gymraeg y Cyngor gyda chynnydd

	Cam Gweithredu	Meysydd dan sylw	Rhif Cyf. Safonol	Sylw/ diweddariad
1	Darparu nodyn briffio i uwch reolwyr/aelodau etholedig i'w rhaedru drwy gyfrwng cyfarfodydd CMT/DMT/cyfarfodydd tîm	Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/penodiadau Digwyddiadau Cyhoeddus Cyhoeddi dogfennau i'r cyhoedd Ymatebion Cyfryngau Cymdeithasol Polisiâu/strategaethau sydd ar gael i'r cyhoedd Trwyddedau/tystysgrifau Hysbysiadau swyddogol Hyrwyddo'r Gymraeg Systemau annerch y cyhoedd	1-5 19/20/21 24-26b, 27a- d,30- 34,65-66 35-38 43-50 58-59 44 42 69-70 81-82 87	Cyhoeddwyd nodyn briffio drwy Staffnet a thrwy'r briff craidd. Mae tudalen Cwestiynau Cyffredin ar gael ar Staffnet. Soniwyd mewn cyfarfodydd tîm adrannol yn ystod Mai/Mehefin 16. Mae cyngor yn parhau i gael ei geisio gan y swyddogion arweiniol corfforaethol.

2	Darparu briff i'r Cabinet Busnes/uwch reolwyr/aelodau etholedig eraill	<p>Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/penodiadau</p> <p>Digwyddiadau Cyhoeddus</p> <p>Cyhoeddi dogfennau i'r cyhoedd</p> <p>Ymatebion Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>Polisiâu/strategaethau sydd ar gael i'r cyhoedd</p> <p>Trwyddedau/tystysgrifau</p> <p>Hysbysiadau swyddogol</p> <p>Hyrwyddo'r Gymraeg</p> <p>Systemau annerch y cyhoedd</p>	<p>1-5 19/20/21 24-26b, 27a- d,30- 34,65-66</p> <p>35-38</p> <p>43-50</p> <p>58-59</p> <p>44</p> <p>42</p> <p>69-70</p> <p>81-82</p> <p>87</p>	<p>Briffiwyd aelodau'r Cabinet ym mis Chwefror 16.</p> <p>Cynhaliwyd sesiynau ffres ar gyfer aelodau etholedig newydd yn 2017 a 2019.</p> <p>Cynhaliwyd sesiynau pellach ar gyfer aelodau etholedig newydd yn 2022.</p>
3	Creu tudalen ar StaffNet y Cyngor i roi gwybod i staff am eu cyfrifoldebau.	Fel uchod.	Fel uchod.	Mae rhestr o Gwestiynau Cyffredin ar Staffnet. Mae tudalen i siaradwyr Cymraeg ar gael.

4	Hysbysu staff drwy gyfrwng y briff craidd a dulliau eraill.	Fel uchod.	Fel uchod.	Hysbyswyd y staff ym mis Chwefror 16 drwy'r briff craidd ac mae'r diweddariadau wedi parhau.
5	Sicrhau bod yr holl dempledi llythyrau a negeseuon e-bost yn ogystal ag ymatebion i'r wasg yn dangos argaeledd gwasanaeth Cymraeg a sicrhau bod yr holl staff yn eu defnyddio	Gohebiaeth (yn cyfeirio hefyd at rai Safonau Gweithredol)	7 Hefyd yn ymwneud â Safonau Gweithredol 134/135	Mae templedi wedi'u rhoi i'r holl staff. Mae teitlau swyddi wedi'u cyfieithu yn ymddangos ar bob e-bost yn ogystal â logo amlwg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.
6	Darparu hyfforddiant 'Cwrdd a Chyfarch' i staff rheng flaen	Galwadau ffôn/cyfarfodydd	19,20,21,24-27	Cynhaliwyd hyfforddiant i staff yn 2016/17 ac fe gynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth yn gynnar yn 2018. Mae modiwl Croeso Cymraeg ar gael ar Staffnet fel rhan o fenter Croeso Iaith Gwaith, yn ogystal â nifer o gyrsiau byr eraill ar-lein sy'n benodol i'r diwydiant. Dechreuodd cydlynnydd y Gymraeg ym mis Medi 2022 i ddarparu cyrsiau Cymraeg a hyfforddiant pwrpasol i dimau yn ogystal â hyfforddiant sylfaenol 'cwrdd a chyfarch' ar gyfer staff rheng flaen.
7	Sicrhau bod pob aelod o staff yn defnyddio negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog. Darparu	Gohebiaeth (yn cyfeirio hefyd at safonau gweithredol)	7, Hefyd yn ymwneud â Safonau Gweithredol	Rhan o Staffnet ac ar y briff craidd. Mae negeseuon allan o'r swyddfa wedi'u darparu i'r holl staff. Mae yna ddangosydd gweledol hefyd i

	troedyn i ddangos a yw aelodau o staff yn siarad Cymraeg.		134/138	siaradwyr Cymraeg a dysgwyr eu defnyddio mewn llofnodion e-bost.
8	Sicrhau bod yr holl ddatganiadau i'r wasg yn ddwyieithog lle bo hynny'n bosibl.	Cyhoeddi Dogfennau a ffurflenni	46	Mae hyn wedi digwydd ers 1 Ebrill 2016.
9	Sicrhau bod yr holl daflenni, dogfennau, datganiadau a datganiadau i'r wasg, lle y'u cyhoeddir yn Saesneg, yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith bod fersiwn Gymraeg ar gael ar gais.	Cyhoeddi Dogfennau a ffurflenni	46	Mae hyn wedi digwydd ers 1 Ebrill 2016.
10	Trefnu i cymorth busnes ddechrau proses o wneud y wefan gyfan yn ddwyieithog.	Gwefan a gwasanaethau ar-lein	52-56	Mae'r wefan yn gwbl ddwyieithog. Gwneir gwiriadau ar dudalennau, ffurflenni a bwydlenni hanesyddol.
11	Trefnu bod rhag-sgwennu ffurflenni yn cael ei wneud yn ddwyieithog	Gwefan a gwasanaethau ar-lein	51	Mae meddalwedd mewnol i gyd yn cael eu cyfieithu - mae meddalwedd allanol wrthi'n cael eu trefnu fel rhan o'r Strategaeth Ddigidol.
12	Sicrhau bod yr holl arwyddion a/neu hysbysiadau newydd neu a adnewyddir yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.	Arwyddion/hysbysiadau	61-63	Atgoffwyd yr holl staff o hyn. Dechreuodd Cyfleusterau adolygu a diweddarau holl arwyddion y Swyddfeydd Dinesig yn 2022.
13	Sicrhau bod y prif dderbynfeydd yn darparu gwasanaeth Cymraeg gydag arwyddion yn rhoi gwybod am argaeledd y gwasanaeth hwnnw.	Derbynfeydd	64,67,68	Mae'r prif dderbynfeydd bellach yn ddwyieithog.

14	Rhaid i wahoddiadau am grantiau ddatgan y gellir gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg a rhaid cynnig cyfweiliadau os gofynnir amdanynt. Ni ddylai fod oedi os defnyddir y Gymraeg. Rhaid i wahoddiadau i dendro am gontractau fod yn ddwyieithog a rhaid iddynt ddatgan bod croeso i dendrau Cymraeg. Ni ddylai fod oedi os defnyddir y Gymraeg.	Grantiau/Tendrau	72-75,76-77a	Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu o fewn yr Adran Gyllid. Mae polisi Grantiau newydd ar y gweill.
15	Asesu pob cwrs addysg newydd a gynigir i'r cyhoedd i werthuso'r angen i'w ddarparu yn Gymraeg <u>a chadw cofnod o'r asesiad.</u>	Addysg	84-86	Rhodddwyd gwybod i'r Tîm Addysg Oedolion a'r Gwasanaeth Ieuenctid am hyn. Mae Dysgu Cymraeg y Fro hefyd yn monitro cyrsiau.
16	Cyfieithu agendâu pob cyfarfod Cyngor, Cabinet, a Phwyllgorau	Democrataidd	41	Mae hyn wedi'i wneud ers 1 Ebrill 2016 ymlaen.
17	Cyfieithu cofnodion pob cyfarfod Cyngor, Cabinet, a Phwyllgorau	Democrataidd	41	Mae agendâu yn ddwyieithog, mae hysbysiadau penderfynu a chofnodion yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
18	Cwblhau asesiad o'r effaith, gan gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg, ar gyfer pob polisi newydd neu rai wedi'u diwygio.	Polisïau ac ymchwil	88-97	I'w gyflawni trwy gyfeirio mewn adroddiadau cabinet/pwyllgor perthnasol. Mae ystyriaeth o effaith polisïau ar y Gymraeg wedi'i chynnwys ym mhroses asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb y Cyngor.
19	Sefydlu grwp prosiectau i drefnu holiadur i bob aelod o staff	Sgiliau ieithyddol a dewisiadau iaith ar gyfer	104, 127,100,101-103	Cynhaliwyd ail archwiliad yn 2018 o bob aelod staff sy'n defnyddio cyfrifiadur.

		ffurflenni a gweithdrefnau		Bwriedir cynnal archwiliad sgiliau pellach ar gyfer 2023/2024.
20	Cyfieithu pob polisi AD	Pob Polisi AD	105 – 111	Mae'r holl bolisiau wedi'u cyfieithu.
21	Codi ymwybyddiaeth staff o ran cynnig darpariaeth Gymraeg o ran contractau, cwynion a sefyllfaoedd disgyblu.	Briffio	99,114,118	Mae rhestr wedi'i llunio o'r defnyddwyr hynny sy'n gofyn am wasanaeth Gymraeg.
22	Paratoi tudalen ar StaffNet ac erthygl briff craidd yn rhoi gwybod i staff sy'n siarad Cymraeg am eu hawliau a rhoi cymorth i ddysgwyr.	Gweithdrefnau AD	112 – 125,141-143	Mae hwn ar gael ar Staffnet: Iaith Gwaith Yr Hwb (bromorgannwg.gov.uk) Ein Iaith Gwaith (valeofglamorgan.gov.uk)
23	Rhoi meddalwedd i staff sy'n siarad Cymraeg i wirio sillafu a gramadeg, yn ogystal â rhyngwynebau Cymraeg lle y bônt ar gael.	Meddalwedd TGCh	120	Mae 'Cysgeir', 'Cysill' a 'Gwirio' wedi eu gosod ar gyfrifiaduron yr holl staff.
24	Cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant Cymraeg sylfaenol i bob aelod o staff a hefyd i reolwyr os oes angen yn rhinwedd eu swydd. Dylai hyfforddiant pellach fod am ddim i'r cyflogai.	Hyfforddiant	130 -131	Mae cyrsiau blasu yn cael eu cynnal ac mae hyn wedi helpu i gynyddu nifer y dysgwyr ar gyrsiau llawn amser. Dechreuodd cyrsiau Cymraeg Gwaith ym mis Medi 2022 gyda'r Cydlynedd Cymraeg Gwaith newydd. Mae pob cwrs Cymraeg am ddim ac yn ystod oriau gwaith. Anfonir nodyn atgoffa cyn y tymor newydd.
25	Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg	Hyfforddiant	132	Datblygwyd modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein a bydd ar gael i'r holl staff ar iDev yn 2023/24.

26	Cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg yn y Cwrs Sefydlu Corfforaethol	Hyfforddiant	133	Mae gwybodaeth Gymraeg yn cael ei chynnwys a'i chyflwyno mewn sesiynau sefydlu. Gellir gweld sgrinlun o'r adran yma
27	Asesu pob swydd newydd a swydd wag ar gyfer y lefel ofynnol o allu Cymraeg fel y bo'n briodol – Hanfodol/Angen ei dysgu/Dymunol/Dim Angen	Adolygu gweithdrefnau	136	Mae'n rhaid i reolwyr gadarnhau a yw swyddi'n Gymraeg hanfodol neu'n ddymunol fel rhan o'r broses recriwtio ar-lein.
28	Mae'r holl ddeunydd perthnasol yn ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Gweithdrefnau recriwtio/dethol	137	Yr holl ddeunydd perthnasol wedi'u cyfieithu ac yn cael eu dosbarthu yn ôl yr angen.
29	Paratoi polisi ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg	Ymwybyddiaeth	98	Mae copi ar gael ar Staffnet
30	Dylai'r fewnwyd fod ar gael yn Gymraeg – hafan, tudalennau newydd/wedi'u diwygio a dewislenni.	Tîm Cyfathrebu/TGCh	122-126	Mae tudalennau dwyieithog ar gael ar y Staffnet.
31	Cyrsiau AD penodol i'w cynnig yn Gymraeg - <ul style="list-style-type: none"> - Recriwtio a Chyfweld - Rheoli Perfformiad - Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu - Sefydlu - Delio â'r cyhoedd - Iechyd a Diogelwch 	Hyfforddiant AD	128	Mae cyrsiau ar gael yn Gymraeg ar gais.

32	Darparu hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd AD	Hyfforddiant	129	Bydd hyn yn cael ei ystyried ar gyfer 2023/24 er mwyn cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn y Cyngor.
33	Nodi aelod o staff ym mhob adran i weithredu fel hyrwyddwr.			Mae hyn bellach wedi'i wneud. Bydd rhestr newydd yn cael ei llunio yn 2023/24.

Gwybodaeth am berfformiad

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn adrodd gwybodaeth am bob mesur sy'n fesur statudol cenedlaethol ac mae'n pennu targedau ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi mabwysiadu nifer gyfyngedig o ddangosyddion lleol sy'n cynorthwyo'r gwaith o fesur cynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus drwy Gynllun Gwella'r Cyngor a thrwy gynlluniau gwasanaethau, sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor - <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx>

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn adran Cydraddoldeb gwefan y Cyngor ynghyd â data arall am faterion iaith.

Mae'r wybodaeth isod yn ymwneud â dangosyddion y gofynnodd Comisiynydd y Gymraeg amdanynt

Safon	Diweddariad
Safon 158 (2) 164 (2) 170 (2d) Nifer y cwynion am weithredu Cynllun y Gymraeg. Bydd y dangosydd perfformiad hwn yn cael ei fesur ar sail nifer y cwynion am gynnwys neu weithredu Safonau'r Gymraeg.	Rydym wedi derbyn pum cwyn drwy Gomisiynydd y Gymraeg. Mae dau o'r rhain yn ymwneud â cheisiadau trydydd parti ar y wefan, un yn ymwneud â'r gwasanaeth cofrestru Cymraeg, ac roedd y ddau arall gan yr un cwsmer ynghylch dewisiadau gohebiaeth Gymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach gydag un o'r cwynion hyn, mae tri wedi'u cwblhau, ac rydym yn aros am y penderfyniad terfynol ar y pumed. Mae'r

	<p>cwynion i gyd yn codi pwyntiau ystyriaeth dilys i'r Cyngor yn gyffredinol o ran gwella gwefannau a gwasanaethau.</p> <p>Cawsom dri sylw anffurfiol gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd dau yn codi mater y Gymraeg yn gyffredinol, a'r trydydd yn ymwneud ag arwydd ysgol.</p> <p>Derbyniwyd dwy gŵyn arall drwy'r system gwynion gorfforaethol.</p> <p>Rydym hefyd wedi derbyn dwy gŵyn anffurfiol gan aelodau staff. Mae un gŵyn yn ymwneud â geirdaon Cymraeg dechreuwr newydd sy'n siarad Cymraeg a'r llall yn ymwneud â ffurflenni Adnoddau Dynol Cymraeg.</p>
<p>Safon 170 (2a)</p> <p>Nifer y staff gyda sgiliau Cymraeg yn y Cyngor.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn wedi'i fesur fel rhan o'r Arolwg Sgiliau Ieithyddol ym mis Medi 2018.</p>	<p>Bydd archwiliad sgiliau ieithyddol yn cael ei gynnal yn 2023. Mae Adnoddau Dynol wedi dechrau'r broses ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi cael gwybod.</p> <p>Yn ogystal â rhoi disgrifiad cyfredol o sgiliau Cymraeg yn y Cyngor, bydd hyn hefyd yn creu cofnod o siaradwyr Cymraeg.</p>
<p>Safon 170 (2b)</p> <p>Nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant ac i ba lefel/radd o hyfedredd.</p> <p>Bydd hyn yn seiliedig ar nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor. Adroddir y mesur hwn fel rhif</p>	<p>Ebrill 2022 – Mawrth 2023</p> <p>Cynllun Iaith Gwaith – dysgu yn y gweithle</p> <p>Mynediad 35</p> <p>Sylfaen 14</p> <p>Canolradd 7</p>

<p>o dan bob un o'r categorïau: Mynediad a Sylfaen; Canolradd; Uwch; Uwch/Meistroli.</p>	<p>Uwch 6 Hyfedredd 2 Cyfanswm 54</p>
<p>Safonau 154, 170 ch)</p> <p>Nifer y swyddi newydd a gwag a gategoreiddiwyd fel Cymraeg hanfodol a dymunol.</p>	<p>Ebrill 2022 – Mawrth 2023</p> <p>Cyfanswm nifer yr hysbysebion sydd wedi'u cofnodi: 1953</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau Cymraeg yn hanfodol = 17 • Sgiliau Cymraeg yn ddymunol = 1432 • Sgiliau Cymraeg i'w dysgu wrth benodi i swydd = 24 <p>Nid yw hysbysebion ar gyfer swyddi ad hoc/hyfforddiant a swyddi ysgol yn cynnwys sgiliau Cymraeg hanfodol / sgiliau Cymraeg dymunol / Cymraeg i'w dysgu pan gânt eu penodi i swydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nifer y swyddi ad hoc/hyfforddiant/schools = 480

Blaenoriaeth barhaus y Cyngor ar gyfer 2022/23 yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu, i annog mwy o aelodau staff i ddysgu neu ddiweddarau eu sgiliau Cymraeg a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y Fro. Yn ystod digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi, fe wnaethom annog staff i ddefnyddio Cymraeg mwy achlysurol yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Darparom restrau o eiriau ac ymadroddion Cymraeg syml, a hefyd cyflwyno'r cysyniad o ddechrau a gorffen pob cyfarfod yn Gymraeg. Byddwn yn adolygu cynnydd gyda'r gwaith hwn.